
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Drenewydd i Candleston, Pen-y-bont ar Ogwr

## Mae'r daith gerdded hon yn mynd heibio un o dwyni talaf Cymru, *The Big Dipper* – tywod a môr ym mhobman!

*"Mae'r darn helaeth o draeth ar hyd y daith gerdded hon yn rhoi cyfle i chi gerdded yr holl ffordd o aber Afon Ogwr i Borthcawl gan ganiatáu amser i badlo ar y ffordd os yw'r llanw'n iawn. Mae'r traeth yn cael ei ddefnyddio'n aml gan farchogion oherwydd ei natur eang."*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU,**

### Dechrau/diwedd:

Eglwys St John's, Drenewydd yn Notais i Gastell Candleston

### Pellter:

3 milltir/5km.

### Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded hon yn mynd â chi o bentref Drenewydd yn Notais sy'n dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, heibio i un o'r ardaloedd mwyaf o dwyni tywod yn Ewrop. Cyn i chi ddechrau arni, cymerwch funud i edrych ar Eglwys Newton. Wedi'i hadeiladu'n wreiddiol fel caer gyda'i thyrau gwylio i rybuddio am ymosodiadau o'r môr, fe'i sefydlwyd gan farchogion Urdd Sant Ioan tua 800 o flynyddoedd yn ôl. Gerllaw mae Ffynnon Sanford, a honnwyd bod iddi briodweddau sanctaidd ac iacháu.

Dilynwch Beach Road i ymuno â Llwybr Arfordir Cymru, sy'n dilyn y traeth heibio i Newton Burrows ac ymlaen i Merthyr Mawr. Mae'r anialwch hwn o dywod yn un o'r systemau twyni uchaf yn Ewrop ac yn Warchodfa Natur Genedlaethol sy'n gartref i amrywiaeth eang o fywyd anifeiliaid, planhigion a phryfed.

Os ydych chi'n teimlo'n anturus, gallwch fynd ar daith oddi ar y llwybr i edrych ar ei frigau tywodlyd a'i ddyffrynnoedd (rhowch gynnig ar ddringo The Big Dipper, twyn talaf Cymru). Unwaith y bydd y llwybr yn cyrraedd aber Afon Ogwr mae'n dechrau ymlwybro'n fewndirol tuag at Candleston, lle byddwch yn dod o hyd i olion Castell Candleston. Yn swatio yn y coetiroedd ar gyrion Merthyr Mawr, mae'r maenordy o'r 14eg ganrif bellach yn adfail atmosfferig, wedi'i orchuddio ag eiddew.

### Angen gwybod:

Am luniaeth a chyfleusterau, mae tafarndai a siopau ym mhentref Drenewydd yn Notais. Mae maes parcio ar draeth Drenewydd yn Notais, yn agos at ddechrau'r daith gerdded, a maes parcio yn Candleston.